Y

DONIAU YSBRYDOL

YN

MRAWDLYS Y GELYN;

YN CYNNWYS

SYLWADAU AR YSGRIFAU "SYLWEDYDD O'R GOGLEDD," YN SEREN GOMER (O HYDREF, 1848, HYD CHWEFROR, 1849), YNGHYLCH Y "DONIAU YSBRYDOL."

GAN

OLYGYDD "UDGORN SEION."

MERTHYR-TYDFIL:

ARGRAFFWYD AC AR WERTH GAN J. DAVIS, GEORGETOWN;

AR WERTH HEFYD

Gan y Saint yn gyffredinol, a llawer o Lyfrwerthwyr, trwy y Deau a'r Gogledd.

1849. [Pris 2g.

AT Y DARLLENYDD.

Dymunir ar y darllenydd, wrth ddarllen y sylwadau canlynol, i gadw mewn cof eu bod wedi ymddangos o'r blaen, o dro i dro, yn Udgorn Seion, ac nad yw y llyfryn hwn ond argraffiad arall o'r sylwadau hyny ar ddymuniad rhai o'n darllenwyr. Rhydd hyn gyfrif am y gwahanol gyfeiriadau anarferol sydd ynddo, a'r achos o ysgrifenu yn y rhif liosog. Hyderir y bydd yn foddion gyda Duw i agor llygaid llaweroedd, a'u dwyn i'w adnabod trwy gredu yn ngeiriau ei Fab, ac ufyddhau i'w holl ordinhadau,

Y Cyhoeddwr.

Merthyr, Gorph. 12, 1849.

Y

DONIAU YSBRYDOL

YN

MRAWDLYS Y GELYN.

Addawsom yn ein Rhifyn cyntaf, os na roddai Golygydd *Seren Gomer* ganiatâd i amddiffyn egwyddorion y Saint yn ei gyhoeddiad ef, yn ngwyneb yr ysgrifau sydd ynddo gan Sylwedydd o'r Gogledd ar y "Doniau Ysbrydol," y byddai i ni ysgrifenu ychydig ar y pwnc yn yr Udgorn. Mae ein terfynau yn rhy fychain, a'n darllenwyr, y rhan fwyaf, yn rhy ddyeithr i'r *Seren*, i ni feddwl adolygu y cwbl; ac am hyny edrychwn heibio i'r cornelau lle mae y Sylwedydd yn ysgyrnygu ac yn ymollwng i ddrwg-liwio, ac awn ar ei ol i'r manau lle y mae ar agwedd un yn ceisio ymresymu. Gorfodir ni i wneyd fel hyn, o herwydd fod brawdlys y *Seren* mor wahanol i frawdlysoedd ereill y wlad, fel na chaniateir i neb ddwyn dim yn mlaen o blaid y "Doniau Ysbrydol," ond y cyfan i'w herbyn. Priodol, ynte, yw dweyd fod y "Doniau Ysbrydol" yn mrawdlys y gelyn, ac fod y tyst yn eu herbyn yn cael dweyd y camgyhuddiadau a fyno, heb neb yn beiddio ei ammau. Oddiar ein hadnabyddiaeth helaeth o gorff ac ysbryd y Sylwedydd, gwyddom i raddau pa faint o ddymuniad sydd ynddo i gael allan y gwirionedd am y Doniau Ysbrydol, ac hefyd am bethau ereill. Mae dyn yn chwilio gwirionedd yn rhwydd i'w adnabod; canys ni welir ef byth yn plygu ei ben ac yn cywilyddio, pan y clywo ei gyd-ddyn yn amlygu yr hyn a wyr efe ei hun sydd yn wirionedd. Nid oes eisieu bwyta pecaid o halen gyda dyn felly, er ei adnabod. Ond mae rhywun, fe allai, yn gwaeddi am ddyfod at y pwnc; eithr aroséd dipyn er ystyried beth yw ein dyben. Ai myned ydym i amddiffyn traddodiadau ein tadau, y rhai a ddysgwyd i ni er pan yn blant; neu rywbeth arall a gofleidiasom yn groes i ragfarn ein gwlad, rhagfarn ein rhieni, a rhagfarn ein hunain? Ai myned ydym i ddynoethi twyll egwyddorion a berchir gan bawb, neu egwyddorion a ddirmygir gan bawb? Atebwn mai myned ydym i egluro ac amddiffyn yr hyn a *wyddom*, nid a gredwn ac a obeithiwn, sydd yn

wirionedd; ïe, mai bwriadu ydym i sefyll o blaid yr hyn a brofa ei hunan yn wirionedd i bob dyn gonest. Yr ydym yn anghymmeradwyo y dynion a safant o hirbell i farnu gwirionedd, yn lle meddu digon o wroldeb i ddod yn agos i wneuthur prawf drostynt eu hunain. Creda llawer yn y nos mai bwci yw pob boncyff yn y berth, o eisieu bod yn ddigon o ddynion i fyned atynt i'w teimlo a'u trafod, a gwneuthur prawf o honynt.

Cymmera y Sylwedydd o'r Gogledd achlysur i ysgrifenu oddiar sylwadau a gyhoeddodd Capt. D. Jones, ar y Doniau Ysbrydol, yn yr "Eurgrawn Ysgrythyrol." Y pwnc cyntaf yn ngorchestwaith y Sylwedydd a welir yn *Seren* Hydref, 1848, wedi ychydig o arweiniad i mewn, dan yr enw

CORFF NEU EGLWYS CRIST.

Gosodiad Capt. Jones ar y pwnc hwn yw, fod corff Crist wedi ei gyfansoddi o aelodau, yn ol fel y desgrifir ef yn 1 Cor. xii; ac mai y swyddi a'r gwahanol ddoniau oedd yr aelodau a'i cyfansoddai. Dywed mai "Duw a osododd yr holl aelodau yn y dyn cyntaf a grewyd, a gosododd hwynt yn gywir fel, ac yn y manau ag yr ewyllysiodd Efe; felly yn gywir yn ei eglwys. Ac y mae mor ffol i unrhyw hunan-ddoethion yn awr hòni y gallant dori ymaith y cyfryw aelod corfforol, a'i osod i well dyben yn rhyw ran arall o'r corff dynol, ac aelod arall yn y fan arall, a thori ymaith yr aelodau ereill fel pethau afreidiol; ag yw i gynghrair o ddoethion geisio cyfnewid neu wneyd heb y doniau ysbrydol oll, bob un yn ei lle, ac i'w dyben priodol, yn eglwys Dduw: mae y naill yn gyffelyb i'r llall." Yn ateb i Capt. Jones, dywed y Sylwedydd,—"Yn ol hyna, nid oes un eglwys yn eglwys i Grist, oni fydd y swyddi neu y doniau hyn ynddi. Ond sylwed y cyfryw fod eglwys yr Hen Destament yn gorff Crist cystal â'r Newydd; canys dywed Paul mai 'un corff sydd,' h.y., un eglwys i Dduw. Wel, nid yr un swyddau (neu *aelodau*, fel y dywed y Mormoniaid) sydd wedi bod yn y corff er yr oruchwyliaeth batriarchaidd hyd yn bresennol. Nid yr un nifer o swyddau oedd yn yr oruchwyliaeth batriarchaidd â'r Foesenaidd, na'r Foesenaidd â'r Gristionogol. Ac felly, nid yw eglwys Crist yn debyg i gorff yn *nifer* na *pharhad* y swyddau ynddi." Nid mor ddrwg, rhaid cyfaddef, y mae Mr. Sylwedydd yn ymresymu. Ond pa le oedd corff yr Hen Destament, pan y dywedir i Dduw osod yn yr eglwys (sef y corff), "yn *gyntaf* apostolion, yn ail prophwydi, yn drydydd athrawon," &c.

(1 Cor. xii, 28)? Os oedd corff yn bodoli o'r blaen, mae yn rhaid i ni alw hwnw yn rywbeth heblaw corff Crist, canys pan alwodd Duw apostolion y dechreuodd yr olaf fodoli. Os bu corff yn flaenorol, yr oedd yr Hwn a'i lluniodd yn ddigon galluog i'w ailfoldio yn gorff newydd i'w anwyl Fab. Mae gan awdwr hawl i newid ei waith, i ateb gwahanol ddybenion: felly mae gan Dduw. "Un corff *sydd*," mae yn wir, ond ni phrofa hyny mai un *fu*. Rhaid cyfaddef hefyd nad oes desgrifiad yn yr Hen Destament am un corff ag sydd yn debyg i gorff Crist, yn ol y Testament Newydd. Ond nid oes achos manylu am yr hyn a fu dan yr "hen oruchwyliaeth," fel y dywedir, ond am yr hyn sydd yn bod dan yr un newydd. Yr ydym wedi dyfod i benderfyniad fod Duw wedi cyfansoddi corff neu eglwys newydd, er ys mwy na deunaw cant o flynyddoedd, bellach; ac y mae apostolion, prophwydi, athrawon, gwyrthiau, doniau i iachâu, cynnorthwyau, llywodraethau, rhywiogaethau tafodau, &c., wedi eu gosod ynddo. Ond beth yw yr holl bethau hyn a osododd Duw yn y corff? Ai *aelodau* ydynt? Os nage, nid oes son i "aelodau" o ddesgrifiad y Sylwedydd, gael eu gosod i mewn yn y corff erioed. Os mai dynion yw yr aelodau yn yr eglwys, fel gyda'r sectariaid, nid Duw sydd wedi eu gosod ynddi, ond hwy eu hunain; canys yr hyn mae Ef yn osod ynddi, o'r uchelder y mae yn deilliaw, yn "roddion i ddynion" (nid i aelodau)—gan roi "rhai yn apostolion, a rhai yn brophwydi," yn efengylwyr, yn fugeiliaid, ac yn athrawon. Tybiwn y gŵyr pawb bellach beth sydd yn gwneyd i fynŷ aelodau yn eglwys Crist. Yn awr, ceisia Mr. Sylwedydd ymresymu "nad yw eglwys Crist yn debyg i gorff yn *nifer* na *pharhad* y swyddau ynddi?" Ai tybied na osododd Duw y nifer anghenrheidiol o aelodau yn y corff, ond iddo adael rhai i'w gosod gan ddynion? Nid yw fod llai o aelodau yn Nghorff y Methodistiaid, nag a osododd Duw yn nghorff Crist, yn profi dim; canys corff o waith Calfin yw y blaenaf, a chorff a'i "aelodau" oll (yn ol esboniad Mr. S.) naill ai yn benau, llygaid, clustiau, breichiau, neu draed. Hwyrach mai traed mewn "undeb" yw y cyfan. Ond gadawn anghenfil felly, ac awn i edrych os yw eglwys Crist yn debyg i gorff o ran *parhad* ei aelodau. Os mai corff oedd wedi i Dduw osod yr holl aelodau ynddo, mae yn rhaid mai anghenfil fyddai wedi colli mwy na'u hanner. Paham y galwyd eglwys Crist yn gorff, os oedd i newid yn ddisymmwth i rywbeth arall? Ni ddeuai felly byth yn "*wr perffaith*, at fesur oedran-

cyflawnder Crist." Pa gorff dynol sydd yn dyfod yn "wr perffaith," wrth golli ei aelodau yn barhaus? Os gall ddweyd un diwrnod mai efe bïa ei holl aelodau, dichon mai ei drwyn yn unig fydd ganddo ddiwrnod arall. Y fath ffolineb mae'r diafol yn rhoddi i rai i geisio gwyrdroi y gwirionedd! Oni wyddom fod corff Crist "wedi ei gyd-ymgynnull a'i gyd gyssylltu, trwy bob cymmal cynnaliaeth, yn ol y nerthol weithrediad yn mesur pob rhan, yn gwneuthur *cynnydd* y corff, i'w adeiladu ei hun mewn cariad?" Mae yr apostolion, y prophwydi, a'r aelodau ereill, i gyflawni dyben eu gosodiad yn y corff, nid tra byddo yn ei fabandod yn unig, ond "hyd oni ymgyfarfyddom oll yn undeb ffydd, a gwybodaeth Mab Duw, yn *wr perffaith*, at fesur oedran cyflawnder Crist." (Eph. vi, 11—16). Yn awr, os caniateir, rhoddwn ein barn am gorff Crist, mai un mewn *embryo* oedd dan yr hen oruchwyliaeth, ac iddo gael ei ffurfio a'i eni o Dduw dan yr un newydd, a'i fod wedi hyny yn derbyn ymborth ysbrydol trwy'r Pen, i'w holl aelodau, er cynnyddu ac adeiladu y cyfan; ac iddo, pan yn tyfu, gael ei gipio i'r "diffaethwch," lle y cafodd ei fwthau "dros amser, ac amseroedd, a hanner amser, oddiwrth wyneb y sarff:" yna iddo gael ei adferu o'r "*ymadawiad*" hwnw, a'i fod heddyw etto ar wyneb y ddaear, yn meddu ei holl aelodau fel ag y gosodwyd hwynt, mewn llawn gwaith, a'r corff yn agosach i fod yn "wr perffaith" nag erioed. A ddigona hyna, tybied?

Yn nesaf, ymholwn, Beth am y PEN sydd i'r corff? Dywed Mr. Sylwedydd, gyda Phaul, mai Crist yw'r pen; ac haera Capt. Jones, druan, mai'r apostolion ydyw. Llaw fudr yw Paul, weithiau, er arwain dynion i gam esbonio. Dyweda ar droion mai y gwr yw *pen* y wraig, nes y mae yn ddigon i bala hurtyn i barnu nad oes gan y wraig un pen ei hunan. Gallai ddweyd yn eithaf grammadegol, ei fod yn gwybod am "wraig" ar y ddaear, a'i Phen yn y nefoedd, a'i bod trwyddo yn derbyn cynnaliaeth i'w chorff; a gallai ddweyd hefyd, heb groesi ei hun, fod pen ganddi hi ei hunan hefyd, ac mai trwy hwnw oedd hi yn derbyn cynnaliaeth, er ar yr un pryd yn derbyn o'r llall. Mae yn ddiddadl fod Paul yn gwybod, pan yn dweyd mai Crist yw *pen* yr eglwys, fod gan Grist ben ei hun hefyd, a'r eglwys (neu'r wraig) yr un modd; yr un fath ag y mae gan wr a gwraig benau eu hunain, heblaw "pen y wraig yw'r gwr." Gobeithiwn y bydd y Sylwedydd yn gallach, pan y prioda ei eneth, na myned i dori ei phen, a sicrhau ei hunan yn groes ar ei gwddf er bod yn "ben" iddi yn ei le,

Yn awr, desgrifio pen daearol yr eglwys oedd Capt. Jones, a Phaul yn desgrifio y Pen nefol. Er nad yw Crist ar y ddaear yn bresennol, etto mae yn gallu bod yn Ben ar ei eglwys yr un cystal, gan fod ganddi hi ben hefyd ar ei chorff, i ofalu drosto yn absennoldeb ei Phriod, ac i drafod yr "allweddau" a dderbyniodd ganddo. Corff heb ben arno ei hun, ni ddylai alw Crist yn ben iddo, o herwydd nid oes ganddo un math o benglog i ddeall beth mae Crist yn lefaru wrtho. Diffyg o benglog, efallai, yn nghorff y Methodistiaid, a'r enwadau ereill, yw yr achos nad ydynt yn clywed lleferydd Duw er ys cymmaint o amser. Chwilied ein hanwyl ddarllenwyr, ynte, os ydynt am adnabod corff Crist, am ryw gorff â phenglog arno, yr hwn sydd â llygaid i weled, clustiau i glywed, ac ymenydd i ddirnad yr hyn mae Crist, y Pen nefol, yn lefaru wrtho. Yn y cyfamser, cymmerwn ninnau anadliad cyn dechreu gyda y Doniau Ysbrydol, gan hyderu ein bod wedi siarad digon am y corff.

"YMADRODD DOETHINEB."

Yn awr yr ydym yn barod i sylwi ar "ymadrodd doethineb," fel y ddawn gyntaf o'r Doniau Ysbrydol, ag sydd yn cael ei barnu yn mrawdlys y gelyn. Mae digon yn enw y ddawn hon er cael allan y gwirionedd am dani, i'r rhai sy'n feddiannol ar ychydig o synwyr cyffredin. Duw sydd yn ei chyfranu, ac y mae yn deilliaw oddi uchod trwy yr Ysbryd. Geill dyn dreulio ei oes mewn coleg, ac wedi y cwbl ddyfod allan yn amddifad o ymadrodd doethineb; canys nid yw y coleg yn addasu mwy ar ddyn i dderbyn rhoddion o'r nef, nag yw y beudy. Yr oedd y Groegwyr yn ceisio doethineb, ac yn ei chael; ond o ba le? Nid oddiwrth Dduw, ond oddiwrth yr athronyddion. Am y ddoethineb ddynol hon. yr haera y Mormoniaid "mai ynfydrwydd o'r mwyaf yw meddwl ei bod yn angenrheidiol i bregethu yr efengyl." "Diammau," fel y dywed Mr. Sylwedydd (yn *Seren Gomer*, Hyd. 1848), "fod yr holl Apostolion, a chyhoeddwyr yr efengyl, yn cael eu cynnorthwyo gan yr Ysbryd Glân (trwy ymadrodd doethineb), yn yr hyn yr oeddynt yn ddiffygiol; megys yr oedd Crist yn annog ei ddyscyblion i beidio a rhag ofalu beth a lefarent pan ddygid hwynt o flaen y penaethiaid, am y byddai i'r Ysbryd Glân eu dysgu yn yr awr hono beth a ddywedent. Yr oedd yr Apostolion oll yn feddiannol ar ddoethineb yn mhriodol ystyr y gair." Dyna beth yw doethineb y ddawn dan sylw, ac nid dim arall; ond nid mewn coleg

y derbynid hi gan yr apostolion, onide buasai gan y Groegiaid hefyd yr un cystal. Yna, y mae'r Sylwedydd, er ceisio dangos rhagoroldeb y coleg ar y dull apostolaidd o addasu dynion i'r weinidogaeth, yn gwneuthur "ymadrodd doethineb" yn "lefaru â thafodau dyeithr!" Gofyna, "Pa fodd y pregethir yr efengyl i'r byd heb ddysgeidiaeth, ac adnabyddiaeth o wahanol ieithoedd y gwahanol genedlaethau a'i preswyliant?" Hefyd, "Os ydyw y Mormoniaid am wneyd heb ddoethineb, neu ddysgeidiaeth [ieithyddol, wrth gwrs], pa fodd y pregethant eu hefengyl i'r byd? A bregetha rhai o'u pregethwyr Cymreig yn yr iaith Saesonaeg, a hwythau heb feddu yr adnabyddiaeth leiaf â'r iaith hono o'r blaen? Os dywedant na wnant, atebaf finnau mai dyna fel yr oedd yr apostolion yn gwneyd; ac os ydynt yn hawlio yr un doniau a medrusrwydd â'r dewiion cyntefig a bregethent efengyl y deyrnas, y mae yn rhaid iddynt wneuthur yr un modd." Wrth ddweyd hyna, tybia y Sylwedydd nad ellir bod yn feddiannol ar "ymadrodd doethineb," heb fod yn hyddysg mewn ieithoedd dyeithr! Beth a roddid gan yr Yspryd i'r apostolion, pan y dygid hwynt o flaen y cynghorau? Ieithoedd dyeithr, yn sicr; canys ni allai dim arall, yn ol geiriau Mr. S., fod yn ymadrodd doethineb! Beth bynag a lefarid mewn tafod dyeithr, yr oedd yn ymadrodd doethineb, wrth gwrs. Ond aroswn wrth y Sylwedydd am brawf o fod rhyw un o'r apostolion, neu eu canlynwyr, wedi bod yn *pregethu* trwy gyfrwng "ymadrodd doethineb" y tafodau dyeithr. Treied wneyd pregethu, os gall, o'r llefaru â thafodau ar y Pentecost, erbyn y deuwn i drin y ddawn o "Lafaru â Thafodau." Yn mhellach, dywed y Sylwedydd, "Yn gymmaint a bod yn ddichonadwy i bregethwyr yr efengyl y dyddiau presennol ddysgu ieithoedd gwahanol genedloedd y byd, pa eisieu eu doniau sydd â'r ddawn o lefaru tafod dyeithr, fel yr oedd yr apostolion yn cael?" Atebwn, fod cymmaint o eisieu donio glowyr a mwnwyr anllythyrenog ein gwlad, ag sy'n cyrchu i'r athrofeydd i ddysgu ieithoedd er pregethu yn yr oes hon, ag oedd eisieu donio pysgotwyr glan môr Galilea i'r un dyben yn eu hoes hwythau. Os yw yn ddichonadwy dysgu ieithoedd yn awr, yr oedd yn ddichonadwy hefyd y pryd hwnw; ac os gallai Duw ddonio yn yr amser gynt, paham lai etto? Ond dealled y darllenydd, nad ydym ni yn credu i Dduw ddonio neb erioed â'r ddawn o lefaru â thafodau, i'w addasu at bregethu; canys y mae yn ddigon rhwydd pregethu i'r gwahanol genedloedd, trwy ddechreu ar y rhai sy'n gwybod iaith

eu cymmydogion. Dyna fel y mae'r "efengyl dragywyddol" yn cyflymu dros y byd y waith ddiweddaf hon. I'r dyben o bregethu felly, cynnysgaetha Duw ei weision ag "ymadrodd doethineb," yr hwn a ystyria athrawon colegau a doethion daear yn ynfydrwydd a ffolineb. Y mae yr un mor anmhosibl i Mr Sylwedydd ddirnad "ymadrodd doethineb" yn awr, ag oedd i'r Groegiaid gynt; canys trwy yr un cyfrwng, sef athrofeydd, y mae'r ddwy blaid yn barnu y deillia gwir ddoethineb. Na feddylied neb fod y Saint yn diystyru doethineb ddynol; mae hono yn dda yn ei lle, ac yn fuddiol; ond pan elo i lanw lle doethineb Duw, ac i geisio gwneuthur pregethwyr iddo, yna mae yn haeddu ei chondemnio ar unwaith. Mae y Saint yn cefnogi doethineb a dysgeidiaeth ddynol, mor bell ag y byddo heb groesi doethineb Duw; ond pan elo doethineb ddynol i wneuthur esboniadau croeshaeriadol ar ddoethineb ddwyfol, yna mae yn llawn bryd i droi y glust fyddar ati. Gwell gosod y ddoethineb ddynol i ddilyn y ddwyfol, trwy gyd-ddweyd, "Yr arwyddion hyn a ganlynant," &c., nâ gosod y ddwyfol i ddilyn y ddynol, trwy groes-ddweyd, Ni chanlynant. Pe dilynai pawb Iesu Grist, Pedr, Paul, a'r lleill, byddent yn Formoniaid gwarthus; ond trwy ddilyn y goleuni dynol a roddir i oleuo eu goleuni tanbeidiach hwy, parha dynion yn Fethodistiaid, Independiaid, a Bedyddwyr call a chymmeradwy. I brofi ein pwnc, annoger rhywun i bwlpudau ein gwlad i ddynwaredu Paul yn pregethu yr efengyl anghyfnewidiol, a chyhoeddi anathema wrth bawb a bregethai rywbeth yn amgen nâ "Deisyfwch y doniau ysbrydol," "na waherddwch lefaru â thafodau," "na ddirmygwch brophwydoliaethau," &c.; a buan y gwelid y pwlpudau yn cau pawb allan a bregethent trwy "ymadrodd doethineb" yr apostol hwnw, tra byddai croesaw iddynt pan â'u doethineb ddynol yn ammau ei eiriau! Yn awr, "Od oes ar neb eisieu doethineb, [yn hytrach na myned i'r coleg i'w hymofyn] gofyned gan *Dduw*."

"YMADRODD GWYBODAETH."

Dywed Mr. Sylwedydd, "Tebygol mai wrth y ddawn hon y meddylid y wybodaeth oruwch-naturiol ag oedd yn cael ei chyfranu i'r prophwyd Cristionogol, yr hwn a feddiannai y ddawn o brophwydoliaeth y sonir am dani yn 1 Cor. xii, 10. Yr oedd y ddawn o ymadrodd gwybodaeth yn fath o ysbrydoliaeth i egluro y prophwydoliaethau yn gywir, o herwydd yr hyn ei gelwir, yn

pen. xiii, 2, yn *brophwydo.* Ond wrth y ddawn hon, y mae y Capt. Jones yn golygu, y '*sicrwydd*' ag y mae yr Ysbryd Glân yn ei roddi i blant Duw o'u bod yn blant iddo, ac yn aelodau yn ei eglwys. Mewn gwrthwynebiad i hyna, dywedaf, mai yr hyn ag oedd yn profi iddynt eu bod yn aelodau yn eglwys Dduw, oedd y gwyrthiau ag yr oeddynt wedi eu gweled cyn eu hymuniad â'r eglwys, neu y doniau, sef yr oll gyda'u gilydd, ag yr oeddynt wedi bod yn dystion o honynt." Dyna ddweyd rhagorol, onide? Os yw y Captain yn dweyd mai *sicrwydd* yw "ymadrodd gwybodaeth," tybia y Sylwedydd mai *prophwydoliaeth* ydyw! A wyr y dynion bach hyn am beth y siaradant? Beth bynag sydd yn wybodaeth, mae yn ddiau ei fod yn sicrwydd; ac os yw plant Duw yn gwybod eu bod yn eiddo iddo, dyna wybodaeth (mewn "ymadrodd," os mynwch), a lle bo gwybodaeth mae sicrwydd yno hefyd. Lle byddo prophwydoliaeth, ni fydd yno sicrwydd nes y delo i ben; a lle na bo sicrwydd, nid oes yno lawer o wybodaeth. Mae "gwybodaeth" yn dyfod i ran pob un o'r Saint, yn ol yr addewid (Ioan vii, 17); eithr "*ymadrodd* gwybodaeth" a renir o'r neilldu i'r sawl a ewyllysio yr Ysbryd, fel y gallont ddysgu i ereill "beth sydd yn rhaid iddynt ei wneuthur i fod yn gadwedig." Fe welir fod y wybodaeth hon yn meddiant pawb, ond nad yw pawb yn cael ymadrodd i gyhoeddi eu gwybodaeth. Pa fodd y daeth y Sylwedydd i ddeall mai gwyrthiau oedd y sicrwydd a feddai dynion gynt o'u bod yn blant i Dduw? Ai gwyrthiau a feddyliai Crist yn yr addewid, pan y dywedai, "A chwi a gewch wybod am y ddysgeidiaeth?" Ai nid yr Ysbryd Glân sydd yn cyd-dystiolaethu â'n hysbryd ni, ein bod yn blant i Dduw? Pe gwyrthiau fyddai sicrwydd plant Duw, beth fyddai eu sicrwydd pe deuai y gau-brophwydi i dynu tân o'r nef yn eu golwg? Y rhai sydd yn gwybod eu bod yn blant Duw, nid trwy wyrthiau y daethant i wybod hyny, ond trwy fod eu Tad yn rhoddi ei Ysbryd i ddadguddio hyny iddynt. Dywed ein Sylwedydd mai y "prawf goreu i wybod pa un a ydyw dyn yn blentyn i Dduw ydyw, drwy iddo chwilio ei hunan, a ydyw efe yn caru Duw a'r brodyr." Geill llawer un chwilio ei hunan am ei oes, a charu ei frodyr â'i holl galon, ac wedi y cyfan tybied ei fod yn gwasanaethu Duw, fel Saul o Darsus gynt, pan yn erlid ei blant! A all Mr. S. enwi rhyw un a adnabu ei hun yn blentyn i Dduw, yn mhlith y Methodistiaid, trwy chwilio ei hunan, a charu Duw a'r brodyr? Os nad yw y "doniau ysbrydol yn anhebgorol anghenrheidiol er

iachawdwriaeth," mae yn ddiau fod adnabyddiaeth ddadgnddiedig yn anghenrheidiol; canys "hyn yw y bywyd tragywyddol, iddynt dy *adnabod* di yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaist ti, Iesu Grist." A phwy a feiddia ddweyd mai Crist yw yr Arglwydd, neu ei fod ef yn ei adnabod, ond trwy "eglurhad yr Ysbryd?" Os nad oes gan Mr. Sylwedydd, ac enwadau ein gwlad, adnabyddiaeth felly o Dduw a'i Fab, ofer yw eu holl gred, eu hofn a'u dychryn, eu rhith gariad, eu croes-esboniadau, eu hathrofeydd, eu gwyneb hir, eu parchedigion doeth, eu taerineb am arwydd, a'u casineb at "Sataniaid"—nid yw y cyfan yn amgen nâ dynion "yn dysgu bob amser, ac heb allu dyfod un amser i *wybodaeth* y gwirionedd;" "a chanddynt rith duwioldeb, eithr wedi gwadu ei grym hi."

"FFYDD."

"Ffydd" yw y drydedd ddawn sydd wedi ymddangos yn mrawdlys y gelyn. Mae yn dda genym am ffydd, canys trwyddi hi y daethom i sicrwydd am y pethau a obeithiem; a mynwn chwarae teg iddi, os gallwn. Dywed Mr. Sylwedydd fod "ffydd" yn euog o fod yn ffydd farw, yn ffydd wyrthiol, ac yn ffydd gadwedigol; a'i bod felly yn fwy nag un. Yn awr, gofynwn beth yw ffydd farw? Wel, credu y gallwn gael maddeuant pechodau trwy fedydd, a pheidio ufyddhau wed'yn, yr hyn yw ffydd heb weithredoedd. Beth yw ffydd wyrthiol? Dim mwy na chredu y gall Duw iachâu rhywun, mor rhwydd â maddeu ei bechodau. Wel, beth yw ffydd gadwedigol? Yr un peth â'r ffydd gyntaf cyn iddi farw, a'r un peth â'r ail pan mewn gweithrediad. "Beth *bynag* oll a geisioch wrth weddio, *credwch y derbyniwch*, ac efe fydd i chwi," meddai Iesu Grist. Os bydd rhywun am faddeuant, creded y derbynia; os bydd rhywun am nerth, creded y derbynia; os bydd rhywun am yr Ysbryd yn eglurhaol, creded y derbynia; os bydd rhywun am gariad, creded y derbynia; os bydd rhywun am wella ei goes, creded y derbynia; os bydd rhywun am wlaw, creded y derbynia; a chan fod pob peth mewn addewid, dywedwn, os bydd rhywun am arwydd, creded y derbynia; "canys pob peth all fod i'r neb a *gredo*." Yn awr, fe ddeallir fod eisieu mwy o ffydd i wella coes, nag i dderbyn maddeuant; ac fod eisieu mwy drachefn i symud mynydd, nag i wella coes: ond pwy ddeallu fod hyny yn gwneyd mwy nag un ffydd? Y graddau, neu y gwahanol weithrediadau o eiddo un ffydd, sydd yn achosi i'r Sylwedydd, feddyl-

iwn ni, ei gweled yn dair. Mae gan bawb braidd sy'n ufyddhau i fedydd, ddigon o ffydd i dderbyn maddeuant; ond mae y ffydd hono i gymmaint graddau gan rai, fel y gellir ei chanfod trwy y ddawn o "wahaniaeth ysbrydoedd;" ac y maent yn derbyn iechyd trwyddi yn ddiattreg, fel y gwr cloff o Lystra (gwel Act. xiv, 8, 9). Wedi "*gweled* fod ganddo ffydd i gael iechyd," y gorchymynwyd i hwnw sefyll ar ei draed. Mae ffydd nerthol felly yn rodd oddiwrth Dduw i rai, tra mae ereill yn gorfod boddloni ar gymmaint o ffydd ag sydd eisieu i gael cymhorth Duw i barhau gyda ei waith. Mae ffydd yn wahanol iawn yn ei maintioli mewn dynion; gall yr hwn sy'n feddiannol ar gymmaint â gronyn o had mwstardd, ddweyd mai efe yw "i *arall* ffydd;" ond pwy a ddywed fod yr hwn sydd wedi credu yr efengyl, yn amddifad o ronyn sy'n llai o'r ffydd hono? Gronyn o faintioli neillduol a ystyria yr Ysbryd yn rodd neu yn "ddawn;" canys y mae mor haelionus, fel nad ystyria ronyn sydd lawer yn llai na gronyn o had mwstardd o ffydd, yn deilwng o'r enw. Ac heblaw hyny, y mae ffydd, yn gyffredin, yn beth sy'n cael ei gynnyrchu gan ddyn ei hunan, fel yr awgryma Crist wrth dad y bachgenyn mud a byddar, sef, "Os gelli di gredu" (Marc ix, 23); ac mae ffydd felly yn ofynol yn mhawb er eu derbyn i'r eglwys, ac hefyd er eu cynnorthwyo i'w chynnyddu, trwy dynu gronyn oddiwrth yr Ysbryd ati i'w gwneyd yn *ddawn* o ffydd. Gallwn gyfrif i'r Sylwedydd paham nad oedd y deg hyny a ddaethant at Grist i'w glanhau, yn feddiannol ar ffydd yn gadwedigol: yn union wedi iddynt hwy osod eu ffydd mewn gweithrediad i dderbyn iechyd, gollyngodd naw o honynt eu ffydd i farw, fel na allent gredu dim yn ychwaneg. Pe parhaent i gadw eu ffydd yn fyw, a chredu pethau ereill, gyda chredu er cael iechyd, gallent fod yn eithaf cadwedig. Felly, y mae yn ddigon eglur bellach, mai yr un ffydd a weithredir gan y garddwr wrth hau ei had, gan grediniwr wrth ufyddhau i'r efengyl, a chan blentyn i Dduw wrth geisio iechyd, ag oedd gan Dduw ei hunan pan yn dywedyd "Bydded" wrth y greadigaeth; gyda hyn o wahaniaeth, fod y ffordd o'r blaenaf i'r olaf "o ffydd i ffydd," nes cyrhaedd perffeithrwydd.

"DAWN IACHAU."

Mae y ddawn uchod yn cael ei thrafod yn y llys yn fwy bonheddigaidd nâ'r lleill, gan nad ydyw yn cael ei llysenwi gymmaint. Caniateir iddi mai yr Ysbryd Glân sydd wedi ei gosod yn yr

eglwys, ac nad oedd yn cael ei gweinyddu allan o honi. "I'r rhai sydd yn yr eglwys," medd S., "y mae yr addewid. 'Od oes neb yn eich *plith* yn glaf, galwed ato henuriaid yr eglwys.' Yr oedd ffydd yn anghenrheidiol yn y derbyniwr gystal a'r gweinyddwr, sef cymmaint â hyn,—'*galwed* ato henuriaid yr eglwys.' Ac yn nesaf, yr oedd sicrwydd yn bod yn yr iawn ymarferiad â'r moddion apwyntiedig. Nid oes fethiant yn bosibl, ond eneinio ag olew, a gweddio gweddi y ffydd; canys dywed yr adnod yn bendant, ond gwneyd hyny, y bydd i weddi y ffydd iachâu y claf. Nid efallai y weddi a'i hiachâ ef; ond '*a* iachâ y claf.' Nid oes modd llithro oddiwrth gyflawniad addewid, os bydd yr ammodau wedi eu cyflawni." Dyna fel y llefara Mr. Sylwedydd am y ddawn hon. *Galw* yr henuriaid at y claf, oedd yr holl ffydd ag oedd yn eisieu er ei iachâu! Os felly, yr oedd *ceisio* gan Grist gynt yn ddigon o ffydd yn nhad y bachgen mud a byddar er bwrw allan y cythraul (Marc ix, 22); ond iaith Crist ar yr achlysur oedd, "Os gelli di gredu,"—yr hyn a ddengys fod Duw yn dysgwyl ffydd yn mhawb sy'n alluog i'w gweithredu. Ni sonia y Sylwedydd fod y ddawn iachâu "*i arall*," fel am y doniau ereill; ac y mae yn hyny yn dangos cyfrwysdra nid bychan. Meddylia y gall pob claf yn yr eglwys gael iechyd gystal â neb, ond gwneuthur y gorchwyl bach o *alw* yr henuriaid. Ond, efallai nad oedd neb yn dygwydd bod yn glaf, ond y rhai a feddent y ddawn; neu efallai mai yr henuriaid yn unig oedd yn feddiannol ar y ddawn hono. Nad beth am hyny, meddiannai y cloff o Lystra y gyfryw ddawn; a thrwyddi hi y derbyniodd hwnw y fendith. Mae addewid i bawb, ar ammodau, ac yn ol ewyllys Duw, i dderbyn iechyd trwy eneinio a gosod dwylaw, yn enw yr Arglwydd; ond nid yw yn rhesymol dysgwyl llwyddiant ar bob achlysur. Eglura y parhad o eiriau Iago (pen. v, 15, 16) yr achos o hyny. Ar ol "A gweddi y ffydd a iacha y claf, a'r Arglwydd a'i cyfyd ef i fyny;" darllenir fel hyn—"ac os bydd wedi gwneuthur pechodau, hwy a faddeuir iddo. Cyffeswch eich camweddau bawb i'ch gilydd, a *gweddiwch* dros eich gilydd, fel y'ch *iachaer*. Llawer a ddichon *taer weddi* y cyfiawn." Fe welir yn awr pa faint o bethau sy'n anghenrheidiol hefyd, gyda "galw" yr henuriaid, i'r dyben i dderbyn iechyd. Nid yn unig mae yn ofynol cyffesu beiau i'n gilydd, ond rhaid gweddio dros ein gilydd hefyd; ac nid rhyw fath o weddio a ddichon wneyd y tro, ond *taer* weddio, a hyny nid gan neb ond y *cyfiawn*. "Llawer a ddichon" gweddiau felly, ond

ni ddywedir y byddant yn sicr o lwyddo bob tro. Dangos yr hyn oedd yn ofynol cyn llwyddo, oedd dyben cyfarwyddiadau Iago. Nid ydym ni yn ewyllysio gwneuthur Duw yn gelwyddog yn ei addewid, megys yr ymdrecha y Sylwedydd wneyd (canys ni rydd un prawf i Dduw dynu ei addewid yn ol) ; eithr ewyllysio dangos ydym mai ar ddynion y gorphwys y bai fynychaf na byddent yn derbyn yr hyn a ofynant yn enw yr Arglwydd, ac mai doethineb yn Nuw yw peidio rhoddi i'w blant bob tro y ceisiant. Pe gwir rhesymeg afresymol y Sylwedydd, "nad oes fethiant yn bosibl, ond eneinio ag olew, a gweddio gweddi y ffydd," ni fuasai neb o blant Duw yn marw, pe galwent atynt henuriaid yr eglwys pan y cawsent eu cymmeryd yn glaf! Mae y dull yna o ymresymu yn annheilwng o ddyn sy'n chwilio am wirionedd; gadawer ef i'r rhai sydd yn chwilio am bob twyll, ond twyll eu hunain. O herwydd fod Capt. Jones yn dweyd fod "rhai aelodau mor weiniaid, fel na allant dderbyn iechyd ar unwaith, fel Timotheus ac ereill gynt, ac fod yn rhaid parhau i weinyddu iddynt, ac i weddio yn daer drostynt," gofyna, "A oes rhyw rai o honynt yn fwy gweiniaid na'r rhai yr oedd Crist yn eu hiachâu gynt? A oes rhai o honynt yn fwy gweiniaid na'r wraig a'r gwaedlif arni," &c.? Ai gwraig *wan* oedd yn dweyd, "Os cyffyrddaf â'i ddillad ef, iach fyddaf?" Pan oedd Crist yn "gweled eu ffydd hwy," yr oedd yn iachâu fynychaf; ac nis gwyddom ni am un enghraifft lle y gellir dweyd nad oedd ffydd gan y derbynydd, oddieithr fod y cyfryw yn farw neu allan o'i bwyll. Y ffordd oreu i gael allan pa un a oedd ffydd gan dderbynwyr bendithion, yw darllen y Testament Newydd, a threio drosom ein hunain yn yr oes hon, am yr un bendithion. Ond peidiwn meddwl mai rhyw Iesu Gristiau ac apostolion yw henuriaid yr oes hon, mwy na'r rhai gynt; mae eisieu rhyw reswm yn mhob peth. Dywed Mr. Sylwedydd yn mhellach ynghylch geiriau Iago, fel hyn :—"Ni raid petruso nad oedd y sicrwydd mwyaf am yr iachâd yn yr iawn ymarferiad a'r moddion, ac nid oes hanes iddynt fethu erioed yn oes yr apostolion." Os nad oes genym hanes iddynt fethu, nis gwyddom ni am un hanes ychwaith iddynt lwyddo, trwy eneinio a gosod dwylaw; a gallwn betruso yn fawr iddynt fethu yn aml, ie, yn aml iawn. Os oedd y saint bryd hyny yn ufyddhau i eiriau Iago, y mae yn rhesymol meddwl eu bod yn galw yr henuriaid atynt, pan y byddent glaf; ac os oeddynt yn derbyn iechyd bob tro heb fethu, nid oedd bosibl fod neb o honynt byth yn marw! Ond, ai gwir hyny?

O herwydd fod y Saint yn barnu fod Timotheus a Trophimus wedi methu derbyn iechyd trwy yr ordinhad, gofyna y Sylwedydd am brawf i hono gael ei gweinyddu arnynt; a dyweda gyda llaw "fod gan yr apostolion hawl i gyhoeddi melldithion, yn gystal â bendithion, uwchben y rhai y barnent yn deilwng." Mae yn wir na allwn roddi hanes i'r ordinhad gael ei threio ar un o honynt; ond gall pawb weled nad melldithio Timotheus oedd Paul, pan yn ei annog i ymarferyd gwin at ei gylla, a'i fynych wendid. Ymofyn ei wella rywffordd oedd Paul; a thrwy ei fod yn annog meddyginiaeth at hyny, ymddengys fod yr ordinhad wedi methu. Paham na ddywedai Paul wrtho am alw yr henuriaid, os oedd yr ordinhad yn sicr o lwyddo bob tro, ac yntau yn dymuno y fendith o iechyd iddo? Y mae methiant yn dilyn yr ordinhad pan heb ddigon o ffydd; ac y mae yn gadael troseddwyr yn fynych yn weiniaid ac yn llesg, a llawer i huno. (1 Cor. xii, 30.) Mae yn ddrwg genym i ddweyd, na ŵyr y Sylwedydd ddim ynghylch y "traddodi i Satan, i ddinystr y cnawd, fel y byddai yr ysbryd gadwedig;" ac y mae yn ddrwg genym hefyd, nad yw ef yn wrthddrych addas i dderbyn gwybodaeth am bethau felly, tra yn methu derbyn pethau llai. Dywed Mr. S. hefyd, mai "ar y rhai yr oedd yr Apostolion yn cyhoeddi y barnau, yr oedd y ddawn hon i gael ei gweinyddu. h. y., ar eu hedifeirwch am eu bai, a'u cyfaddefiad o'u camsyniad, ac yr oedd yn ateb y dyben hefyd yn wastad." Yn mha le cafodd y Sylwedydd afael ar y wybodaeth hona, tybied? Mor afresymol yw haeriadau fel hyn. Cymmaint â hyna am y ddawn iachâu.

"GWYRTHIAU."

Dywed Mr. Sylwedydd, yn *Seren* Tachwedd, 1848, mai "dawn oedd hon ag oedd yn cael ei rhoddi i'r apostolion, ac iddynt hwy yn unig fel y cyfryw," tra dywed yr ysgrythyr mai "i arall" y cyfranid hi! Dywed hefyd ei bod yn foddion trwy ba un y cyfrenid y doniau ereill, ac mai trwyddi yr oedd yr apostolion yn iachâu y cleifion, &c; er fod Paul yn tystio mai yr Ysbryd oedd yn cyfranu y doniau hyny o'r neilldu. Dadleuir llawer gan y Sylwedydd ynghylch pa beth sydd yn cyfansoddi gwyrthiau; ac yn wir y mae hyny yn bwnc cryn ddyrys. Meddylia llawer fod llefaru â thafodau, prophwydo, ac iachâu cleifion, yn wyrthiau; ond meddyliwn ni mai doniau ereill yw y rhai hyny, ac y gallai eu perchenogion fod yn amddifad o'r ddawn i wneuthur gwyrthiau. Tybia rhai, fel y Sylwedydd, mai peth uwchlaw i ddeddfau

anian, a chroes i reolau cyntefig natur, yw gwyrth; tra hona ereill fod argyhoeddi Methodistyn yn gymmaint o wyrth â dim. Fe gredwn ni yn rhwydd mai gwyrthiau oedd troi y wialen yn sarff, peri i'r haul sefyll, troi y dwfr yn win, &c.; ond ni allwn gredu fod hyny yn groes i reolau cyntefig natur, canys rheolau natur yw ewyllys ei Hawdwr. Buasai troad y ddaear yn wyrth, pe arferai sefyll; ond pe buasai yn arfer sefyll, wrth orchymyn Duw, ni fyddai hyny yn fwy croes i ddeddfau anian nag ydyw ei throad, canys ufyddhau i'w Hawdwr mae y ddaear yn y naill beth a'r llall. Nid oes dim yn wyrth i Dduw, o herwydd ei fod yn deall trwy ba reolau y cyflawnir gwyrthiau; ac o ganlyniad, yn ol fel y byddo dyuion yn deall y rheolau er cyflawni gwyrthiau, i'r graddau hyny y diflana y rhyfeddod o honynt. Felly, gall pethau ymddangos yn wyrthiol i rai, tra na fyddant felly yn ngolwg ereill. Y mae Mesmeryddiaeth yn wyrthiol i'r sawl nad ydynt yn deall y gelfyddyd; ac yn debyg y gallem ddweyd am lawer o bethau ereill. Y mae Mr Sylwedydd wedi bod yn casglu rhyw lawer o farnau i ddesgrifio pa bethau sydd yn hanfodol i wyrth; ond gadawn ni y barnau hyny o'r neilldu, gan nad ydynt amgen nâ mympwy ddynol. Yn ol ewyllys a dybenion Duw yn unig y cyflawnir gwyrthiau. Dywedodd Duw wrth Moses am wneyd gwyrthiau o flaen Pharaoh, fel y credai; ond ni roddodd orchymyn o'r fath i Iesu Grist a'i apostolion, onide dylasent foddloni Satan a'i arwydd-geiswyr. Yr unig brofion o wirionedd i'r bobl yn amser Moses, oedd gwyrthiau; ond wedi dyfodiad Mab Duw, trwy wneuthur ewyllys ei Dad yn unig y mae dyfod i wybodaeth y gwirionedd. Daeth Iesu Grist i'r byd i roddi gwell profion o'i ddwyfoldeb, na neb o'i flaen. Os cafodd Pharaoh brawf o ddwyfoldeb gan Moses, cafodd brawf arall gan ei ddewiniaid i'w bwyso; ac os gwelodd Pharaoh well prawf gan Moses na'r lleill, naturiol oedd iddo gredu nad oedd Moses yn ddwyfolach nâ hwythau, ond ei fod yn well dewin. Y prawf a gynnygiai Crist oedd yr Ysbryd Glân, yr hwn oedd yn rhoddi sicrwydd i bawb a'i derbyniai, fel na buasai achos i neb gael ei dwyllo gan rai fel Simon Magus, &c. Er hyny, yr oedd Iesu Grist hefyd yn cyflawni gwyrthiau, pan y buasai ei Dad yn ewyllysio iddo, eithr nid er mwyn profi ei anfoniad, fel y tybia y Sylwedydd. Pe buasai gwyrthiau ac arwyddion yn brofion o ddwyfol anfoniad, gallai y dewiniaid a'r gau-brophwydi honi eu hunain yn weision i Dduw, yn enwedig pe llwyddent i dynu tân

i waered o'r nef yn ngolwg dynion, megys y tystia yr ysgrythyr y gwneir yn y dyddiau diweddaf.

Wedi i Mr. Sylwedydd osod i lawr seiliau gwyrth, â yn mlaen i sylwi ar wyrthiau Crist, mewn cyferbyniad i wyrthiau ychydig o Saint yn nghymmydogaeth Llanybydder. Dylid cofio fod y Sylwedydd wedi dweyd yn barod, mai dawn yn perthyn i'r apostolion yn unig oedd gwneuthur gwyrthiau; ac am hyny ffolineb o'r mwyaf oedd iddo ddysgwyl gwyrthiau oddiwrth ddynion nad oeddynt yn apostolion, ac i feddwl mai treio gwneyd gwyrthiau oedd Saint Llanybyther wrth ymdrechu gweddio dros eu cleifion. Mae ein Sylwedydd yn camsynied un ddawn yn lle y llall yn barhaus. Credu mae y Saint y gall Duw wneuthur gwyrthiau trwy ei blant yn awr fel cynt, megys y byddo ef yn ewyllysio, ac nid credu y gallant hwy eu cyflawni fel y dewisant eu hun ain. Nid yw methu iachâu brawd yn mhith y Saint, yn brawf nad yw y ddawn i wneuthur gwyrthiau yn yr eglwys; canys, os buasai hyny yn brawf o rywbeth, prawf fyddai yn erbyn y ddawn iachâu, ac nid gwyrthiau. Er cymmaint mae'r Sylwedydd wedi ddweyd wrth ereill pa beth sydd yn cyfansoddi gwyrth, mae efe ei hunan, wedi y cwbl, mor anwybodus o honi ag i feddwl mai iachâd rhyw glaf ydyw, yr hyn a effeithir drwy y ddawn iachâu! Buasai yn fwy cysson ag ef ei hunan, er dangos ffaeledd *gwyrthiau* y Saint, i geisio profi na ddaeth y mud a'r byddar hwnw yn Nghasnewydd, i lefaru a chlywed, trwy allu Duw. Ond, beth ofala dyn sydd â'i fryd ar wrthwynebu, pa ddichell a arfera, os geill gael rhywbeth i'r daflu gorchudd dros y gwirionedd. Pe buasai Crist ei hunan yn dyfod i'r byd etto i ail-wneyd ei wyrthiau, ni wnelai y dynion a wrthodant ei genadwri yn bresennol, fyth eu credu; canys ymddygent yn gymhwys fel eu cyfeillion sectyddol yr amser gynt. Gwell gan y cyfryw beidio clywed son am wyrthiau; a gwell genym ninnau beidio treulio ein hamser i'w hargyhoeddi o honynt. Eithr yr ydym yn synu fod y dynion sydd yn gwadu gwyrthiau yn awr, pan yr honant mai at gadarnhau athrawiaethau newyddion y maent da, yn methu gweled eu heisieu i gadarnhau eu hathrawiaethau newyddion hwy yn yr oes hon, y rhai a wahaniaethant gymmaint oddiwrth eu gilydd, fel mai ofer i neb yw credu mai cymmysgedd felly yw athrawiaeth anghyfnewidiol Crist, yr hon oedd i'w phregethu i'r holl fyd.

Yn awr, er cael terfynu ynghylch gwyrthiau, dywedwn fod Duw wedi eu gosod yn ei eglwys; a phwy bynag a ammheuo hyny,

darllened 1 Cor. xii, 28. Nad beth oedd eu dyben, mae yn ddiau i Dduw eu gosod ynddi, ynghyd ag apostolion, prophwydi, athrawon, doniau i iachâu, &c.; ac y mae mor rhwydd profi nad oes athrawon i fod ynddi yn awr, ag ydyw profi nad oes gwyrthiau. Nid yw yn rhesymol i feddwl y gwnai Duw gyfnewidiadau yn ei eglwys, heb hysbysu hyny i'w blant; hysbysodd yr holl bethau a osododd ynddi, a phaham nad hysbysai hefyd yr hyn a dynai o honi? Os dywed y Sylwedydd nad oedd yr "arwyddion i ganlyn y rhai a gredant" mewn grym yn mhellach nâ'r amser y cyfeiria Paul ato yn Col. i, 6, 23, lle dywed fod yr efengyl wedi ei phregethu trwy yr holl fyd,—yna nid yw "y neb a gredo ac a fedyddier, a fydd cadwedig," mewn grym ychwaith—mae y cyfan wedi darfod! Ond os yw y Sylwedydd yn credu yr ysgrythyrau, mae yn rhaid iddo addef fod yr arwyddion i ganlyn y rhai a gredant yr efengyl; ac nid yn unig hyny, ond rhaid iddo gredu hefyd y cyflawnir mwy o wyrthiau yn y dyddiau diweddaf, nag a gyflawnwyd erioed o'r blaen, megys y prophwyda yr ysgrythyrau am danynt; eithr pa amlaf ac amlycaf y byddant, mwyaf i gyd fydd anghrediniaeth crefyddwyr y cymmysgedd, sef y Babiloniaid, y rhai ni argyhoeddir hyd nes y dyfethir hwynt yn llwyr gan ddyfodiad disymmwth Mab y Dyn.

"PROPHWYDOLIAETH."

Y ddawn hon yw y chwecheil a fu yn mrawdlys y gelyn; ac ar yr achlysur, galwodd Mr. Sylwedydd nifer fawr o esbonwyr enwog i ddweyd eu barnau am dani, a chlywwyd hwy yn dweyd yn wahanol iawn i'w gilydd, yr hyn a brofa nad oeddynt yn deall nemawr yn ei chylch. Ond y mae y Sylwedydd yn meddwl fod y farn am dani yn benderfynedig, ac mai hyn yw—"llefaru unrhyw beth dan ysbrydoliaeth, neu ddehongli unrhyw beth ysbrydoledig neu anysbrydoledig." Yn ngwyneb hyna, dyweda Capt. Jones, mai "Ysbryd y dadguddiad yw Ysbryd Duw, ac amlygu y pethau dyfodol i blant Duw yw y ddawn hon." Y mae y Sylwedydd yn ei ateb drachefn, fel hyn—"Gosododd Duw ei ddawn brophwydol yn ei eglwys, i'r dyben o egluro yr ysgrythyrau; a meddyliaf mai drwy yr ymadrodd gwybodaeth ag y soniwyd am dano yn flaenorol, y gwnaent hyny." Yn enw rheswm, pa beth yw yr holl ddoniau afreidiol sydd yn yr eglwys? Pa eisieu cyfranu "prophwydoliaeth," os gellid egluro yr ysgrythyrau trwy "ymadrodd gwybodaeth?" Yr oedd gwybodaeth a doethineb yn

ddigon er cyfansoddi prophwydi dychymmygol y Sylwedydd; ac ofer neillduol oedd ychwanegu "ac i arall brophwydoliaeth," pan oedd doniau ereill yn ateb ei dyben yn hollol. Dealled y Sylwedydd nad ydym ni, na'r Capt. Jones, yn meddwl nad oedd yr enw *prophwyd* yn cael ei alw ar bersonau nad oeddynt ar y pryd, feallai, yn prophwydo; ond methwn ddirnad ei fod yn iawn i alw prophwyd ar ddyn na phrophwydodd erioed. Prophwydi oedd yr ail ddosparth o swyddi a osododd Duw yn ei eglwys; ond ymddengys fod y ddawn o brophwydoliaeth yn cael ei chyfranu i lawer nad oeddynt mewn swyddi, megys y deuddeg hyny a fedyddiwyd yn Ephesus. Pa reswm oedd i'r rhai hyny fyned i egluro yr ysgrythyrau i apostol ag oedd wedi dyfod yno i'w dysgu hwy? Ond buasai rhag fynegi rhywbeth i ddod yn beth teilwng o sylw yr hen Baul; megys y mae hanes yn Act. xxi, i rai o'i frodyr ei annog, trwy y ddawn hon, i beidio myned i fyny i Jerusalem, o herwydd y gwyddent yr hyn a ddygwyddai iddo yno. Yr oedd gan Phillip bedair o ferched yn prophwydo; ac os mai esbonio oeddynt, iddynt eu hunain yr esbonient, ac nid i'r eglwys, canys nid oedd caniatâd iddynt i ddysgu yno. Gallai gwragedd weddio, trwy ofalu na weddient yn bennoeth; ac y mae yn ddiau fod rhyddid ganddynt i rag fynegu neu brophwydo; oblegid dywed Paul, "Mi a fynwn pettych chwi OLL yn llefaru â thafodau dyeithr, ond yn hytrach brophwydo o honoch;" a thrwy fod hawl gan bawb i hyny, y mae hawl gan fenywod hefyd. Etto, mewn perthynas i brophwydo, os mai egluro yr ysgrythyrau ydyw, pa ysgrythyrau oedd gan y Corinthiaid i'w hegluro? pa faint o ysgrythyrau oedd gan Genedloedd felly, heblaw llythyron Paul a'ynt? Ac os mai egluro yr ysgrythyrau oedd prophwydo, nid oedd rhyddid gan wragedd i ymwneyd â'r gwaith, canys eu dyledswydd hwy oedd tewi: ond dengys y geiriau canlynol, fod cymmaint o hawl ganddynt i weddio a phrophwydo yn yr eglwys, ag oedd gan y gwyr. Y geiriau ydynt,—"Pob gwr yn gweddio, neu yn prophwydo, â pheth am ei ben, sydd yn cywilyddio ei ben: eithr pob gwraig yn gweddio, neu yn prophwydo, yn bennoeth, sydd yn cywilyddio ei phen." (1 Cor. xi, 4, 5.). Yn awr, awn i sylwi, os mai dawn i esbonio yw y ddawn o "brophwydoliaeth," yna gorfodir ni i benderfynu nad yw Duw wedi gosod yn ei eglwys un ddawn er mynegi pethau dyfodol, a rhaid nad yw llyfr y Datguddiad ond clamp o esboniad! Mae y Sylwedydd, feddyliem, am ein perswadio i gredu na fu y Dyddanydd arall yn donio neb

o ddyscyblion Crist â'r ddawn o rag-fynegi pethau—dim ond esbonio o hyd. A ydyw efe yn foddlon i ni alw esbonwyr yr oes hon yn brophwydi hefyd; neu mai gwell yw peidio, rhag i ddynion gonest gredu mai hwy yw y "gau brophwydi," obegid nad ydynt yn llefaru "dan ysbrydoliaeth," fel y rhai gynt? Os na allant esbonio dan ysbrydoliaeth, gwell i'r eglwys fod hebddynt; canys dywed y Sylwedydd "fod yn anghenrheidiol, tuag at iawn a sicr esbonio prophwydoliaethau, fod yr esboniwr dan ddylanwad rhywbeth yn uwch nâ chredoau dynol." Da iawn yw cyfaddef, ynte, nad yw esboniadau yr oes i ymddibynu arnynt, ond fod yn rhaid cael prophwydi ysbrydoledig etto cyn y gallwn gael unrhyw eglurhad ar yr ysgrythyrau. Caiff y Sylwedydd gredu y Dr. J. P. Smith, "nad oes un brophwydoliaeth o'r ysgrythyr yn ei hegluro ei hunan," er mwyn iddo brofi ei bwnc yn well; eithr dewiswn ein hunain i gredu Pedr, "nad oes un brophwydoliaeth o ddehongliad *priod*" (private), ac hefyd na fuasai achos i'r Iddewon fethu deall y prophwydoliaethau llythyrenol am Grist, oni buasai eu bod (fel y Sylwedydd) wedi eu dysgu i feddwl fod eu dehongliadau yn guddiedig.

Wrth gwpla esbonio ar "brophwydoliaeth," dyfyna y Sylwedydd Rhuf. xii, 6, "A chan fod i ni amryw ddoniau yn ol y gras a roddwyd i ni, pa un bynag ai prophwydoliaeth, prophwydwn yn ol cyssondeb y ffydd." Yn awr, tybia ef fod yn rhaid mai esbonio oedd prophwydo, neu na fuasai Paul byth yn eu hannog i *ragddweyd* yn ol cyssondeb y ffydd. Paham nad oes eisieu cadw cyssondeb y ffydd mewn golwg wrth ragddweyd, yn gystal ag wrth bregethu? onid yr Ysbryd sydd yn arwain yn y naill beth, fel y llall? Pe na edrychid at hyny gan yr apostolion, buan y tywysid y saint i brophwydo a phregethu yn gyfeiliornus; canys pethau o ran oeddynt, ac ystyriai rhai brophwydo mor ddiwerth, nes y gorfodid Paul i ddweyd wrthynt, "Na ddirmygwch brophwydoliaethau." Gwaith yr apostolion ac ereill oedd perffeithio y saint, a'u dysgu i ymarferyd y doniau ysbrydol mewn doethineb, fel y gallent ragori er adeiladu yr eglwys. Yr oedd Paul yn dysgu y Corinthiaid i lefaru â thafodau, cyfieithu, prophwydo, &c., er y syna y Sylwedydd fod neb yn "gosod ei hun yn *ben* ar yr Ysbryd Glân." Dylai ddeall mae gan yr Ysbryd y cymmerai Paul hefyd ei arwain, tra yn eu dysgu, a'i fod ef yn meddu mwy o gyflawnder o hono na'r rhai a ddysgai. Yn awr fe welir nad oedd un anghyssondeb yn Paul wrth ddysgu rhai i rag-ddweyd

yn ol cyssondeb y ffydd, tra yr oedd efe ei hun yn rhagddweyd yn fynych

Ymddengys y parha "prophwydoliaeth" yn yr eglwys hyd nes y delo yr "hyn sydd berffaith," ac hyd nes y peidio yr Ysbryd Glân â bod yn Ddyddanydd arall, ac i ddwyn ar gof y pethau sydd wedi myned heibio, ac i fynegi pethau i ddyfod.

"GWAHANIAETH YSBRYDOEDD."

Y ddawn uchod yw y seithfed yn y frawdlys, a dywed y Sylwedydd mai "dyben y ddawn o wahaniaeth ysbrydoedd oedd adnabod gwahaniaeth rhwng y *gwir*-brophwyd, a'r *gau*-brophwyd —rhwng gwas i Dduw, a chenad Satan." Etto, dywed, "Yn gymmaint ag nad oedd y rhai oeddynt wedi troi oddiwith Iuddewaeth at Gristionogaeth, yn meddu y Testament Newydd y pryd hyny, anghenrheidiol oedd bod Crist yn gosod rhywbeth yn safon yn ei eglwys, i brofi yr athrawon a ddeuent oddiamgylch. Credwn mai y ddawn o wahaniaeth ysbrydoedd oedd hono." Y mae Mr. Sylwedydd, ar y cyfan, yn lled gysson ynghylch y ddawn hon, oddieithr ei fod yn ei gwneyd yn rywbeth nad oedd eisieu ar ol cael y Testament Newydd: ar yr un tir gallai ddweyd hefyd nad oedd eisieu Ysbryd Glân ar neb, ar ol iddynt gael y llyfr hwnw. Pa fodd y gall llyfr gadw yr hyn a roddwyd gan yr Ysbryd yn llestr pridd dyn, a hyny yn eglurhaol? Pa fodd y gall llyfr ddefnyddio dawn o lefaru, prophwydo, neu wahaniaethu ysbrydoedd? Mae yn rhaid cael tafod i lefaru, a llygaid i wahaniaethu. Pa Destament a adnebydd ddiafol pan y byddo "yn rhith angel y goleuni?" Yn ol tystiolaeth y Sylwedydd, y mae anghenrheidrwydd am ddawn felly yn yr oes hon, gan fod gau-brophwydi i'w dysgwyl yn barhaus; a phaham nad y ddawn ag oedd yn cael ei chyfranu "i arall," fuasai y goreu i'w hadnabod etto? Nid yw dweyd fod y Testament wedi dyfod yn lle rhywbeth, ddim yn amgen nâ lol wag a direswm. Fe wyr pawb nad yw y Testament ond casgliad gan ddynion anysbrydoledig, o rai o'r llythyron hyny a ysgrifenodd yr apostolion ac ereill at yr eglwysi, pan na allent fyned atynt i'w dysgu yn bersonol; ac na fwriadwyd hwynt erioed i gyflawni gwaith yr Ysbryd Glân, yr hwn ni allai neb ei wneyd ond efe ei hun. Y mae yn anghenrheidiol i gael ysbryd cyn y gellir gwahaniaethu ysbrydion; a chan na fedd y Testament ddim un ysbryd, a'r dyn a'i darlleno ond ysbryd ei hunan, pa fodd yn y byd yr adnabyddir gau-ysbrydion, heb feddiannu

Ysbryd Duw, neu y ddawn o wahaniaeth ysbrydoedd? Yn mhellach yn mlaen eto, y mae'r Sylwedydd, er mwyn treio profi diffyg undeb yn yr eglwys gynt, yn dweyd fel hyn:—"Mae y rhan fwyaf o draethawd Capt. Jones ar y ddawn hon, yn cael ei gymmeryd i fyny i ddangos nad yr un ysbryd sydd yn y gwahanol enwadau, yn eu harwain i'r fath wahanol gredoau a theimladau. Ond, yn ol hyn, nid oedd Ysbryd Duw yn y rhai yn eglwys Rhufain ag a fwytaent gig, os oedd yn y rhai nad oeddynt yn ei fwyta; neu nid oedd yn y rhai nad oeddynt yn ei fwyta, os oedd yn y lleill. Ac yn ol y resymeg yna, nid allasai fod Ysbryd Duw yn y dyn oedd yn ystyried diwrnod i'r Arglwydd, os oedd yn y dyn nad oedd yn ei ystyried; neu nid oedd yn yr olaf, os oedd yn y blaenaf." Yn awr, nid yw yr enwadau yn croesi eu gilydd, o herwydd fod rhai yn Ddirwestwyr, ac ereill yn yfwyr; a rhai yn ysmocio, ac ereill yn peidio; ond wrth eu bod yn gweinyddu yr un ordinhadau, a phregethu yr un athrawiaethau, yn wahanol hollol,—wrth hyny y maent yn croesi eu gilydd, ac yn cael eu harwain gan ysbrydion gau. Wrth ufyddhau i'w orchymynion, a gweinyddu ei ordinhadau, y dysgwylia Duw i'w blant beidio croesi eu gilydd, ac nid wrth fwyta cig neu fara. Nid Ysbryd i ddysgu bwyta ac ystyried diwrnodau ydyw, ond un i dywys i'r gwirionedd. Pan dywysid rhai gynt gan Ysbryd Duw i bob gwirionedd, nid oeddynt, er hyny, heb lawer o golliadau yn nglyn â hwynt, y rhai a ddiwygid yn barhaus gan arolygwyr yr eglwys. Y mae plant Duw yn cael eu harwain gan yr Ysbryd, pan y byddont yn cael eu dysgu gan athrawon ysbrydoledig; a phan y maent yn cymmeryd eu harwain felly, dyna'r amser y tywysir hwynt i bob gwirionedd; ond nid ar unwaith y cyrhaeddant berffeithrwydd. Nid yw athrawon yr enwadau yn addas i arwain ereill i bob gwirionedd, tra y maent hwy eu hunain yn ymddyeithrio mwy oddiwrtho bob dydd. Yr hyn a wyddant hwy yn amgenach na'r rhai a ddysgant, yw eu doethineb ddynol, canys credant mae y peth diweddaf a gawsant oddiwrth Dduw yw y Testament Newydd, yr hwn a fedda eu dyscyblion gystal â hwythau. Yn awr, gan y meddylia Mr. Sylwedydd mai wrth y "gair a'r dystiolaeth" y mae profi pawb yn bresennol, dymunwn wybod wrth ba beth y mae profi y gair a'r dystiolaeth? Pwy sydd yn gwybod yn awr, os nad yw y ddawn o wahaniaeth ysbrydoedd yn yr eglwys, pa un ai gwir neu gau yw y gair a'r dystiolaeth dan sylw? Nid gwiw i neb ddweyd ei fod yn credu a gobeithio, canys

y mae yn rhaid cael sicrwydd cyn bod yn ddiogel rhag y gau. Mae yn anghenrheidiol profi yr ysbrydion yr un mor drwyadl yn awr, ag yn yr amser gynt; ond pa fodd y gellir, heb feddu yr un Ysbryd? Ni all y Testament ond cynnorthwyo yn unig i gredu; mae y sicrwydd a'r prawf yn eisieu o hyd.

Y mae Capt. Jones, yn yr "Eurgrawn," yn trafod y ddawn hon yn gryn fanwl, ac yn gosod allan yr anmhosiblrwydd o fod y gwahanol sectau sydd yn y byd yn cael eu harwain gan Ysbryd Duw, a'r anghen mawr sydd am y ddawn yn yr oes hon, yn anad un oes arall, er eu dwyn i undeb y ffydd. Ond, mae yn debyg i'r Capt., yn ei frys i ddarlunio y gwahanol sectau, ddygwydd taro wrth "y Methodsyn, druan," yr hwn a gynhyrfodd yn drwyadl yn mherson y Sylwedydd. Daeth i'w fryd yn union y gallai fod rhai o'r Saint wedi troseddu cyfraith y wlad, ac y byddai crybwyll rhyw drosedd yn ddial ac yn brawf da nad yw y Saint, mwy nâ'r enwadau ereill, ddim dan arweiniad Ysbryd Duw. Druan o hono! Ai ni wyddai ef fod y Saint cyntefig dan arweiniad yr Ysbryd, a bod Paul yn rhybyddio rhai o honynt i roddi heibio ladrata a meddwi? Nid Ysbryd Duw sydd yn cymhell neb i droseddu na chyfeiliorni, ond ysbrydion ereill: mae gan ddyn waith i'w profi, a gwaith dyfal i ddilyn y da. Yn nesaf, ymdrecha y Sylwedydd brofi fod Capt. Jones yn croes-ddweyd ei hun, trwy ei fod yn awgrymu mewn un man fod y "cythreuliaid yn rhwym," tra yn son am eu bwrw allan mewn man arall. Oni ellir profi fod yr ysgrythyrau yn dweyd yr un pethau? (Gwel Judas 6, a Marc xvi, 17.) Gwna yr un sylw y tro ynghylch "pen yr eglwys" hefyd, ynghyd â gwrthddywediadau J. D. yn y "Prophwyd" am Ragfyr, 1847, y rhai sydd yn ddigon cysson i'r sawl a fyn ddeall. Ond pe byddai rhywbeth yn anghysson, beth wed'yn? A honodd Capt. Jones, neu J. D., eu bod hwy yn berffaith, neu ddim yn agored i ffaeleddau mewn ysgrifen, yn gystal ag mewn rhywbeth arall? Gwyddom am danom ein hunain, mai nid heb lawer o wylio yr ysgrifenwn, ac mai nid heb weddio yn barhaus am gyfarwyddyd, a gofyn barn brodyr fyddo yn meddu mwy nâ ni o ddoethineb Duw. Etto, er y cyfan, ofnwn fod ynom ni golliadau, ond nid yn ein crefydd, nac ychwaith yn yr Ysbryd a dderbyniwn.

"Gwahaniaeth ysbrydoedd" yw y ddawn olaf a fu yn mrawdlys y gelyn:" mae dwy o'r naw heb eu treio etto, ac nid oes nemawr argoel y cant eu treio yno ychwaith, nad beth yw'r achos. Cawn ni, ynte, eu treio ein hunain, rhag iddynt fod yn aros eu prawf am byth, ac ymdrechwn eu cael yn rhydd mewn byr amser.

"AMRYW DAFODAU."

Mae y ddawn hon etto yn cael ei rhoddi "i arall;" a'r hwn a fyddo yn ei defnyddio, "nid wrth ddynion y mae yn llefaru, ond wrth Dduw; canys nid oes neb yn gwrandaw." Yr ol pob hanes ag sydd yn yr ysgrythyr, dyben y ddawn hon yw adeiladu y meddiannydd o honi, ac hefyd i adeiladu yr eglwys trwy gyfieithad. Gallai rhai o'r apostolion fod wedi pregethu trwy y ddawn hon, er na allwn ni ddeall hyny yn yr ysgrythyr mewn un man, a dichon y gwna Duw alluogi rhai i bregethu felly etto; eithr ni ddysgwn ni o'r Testament Newydd mai at bregethu y rhoddwyd y tafodau, ond yn hollol i'r gwrthwyneb. (Gwel 1 Cor. xiv). Mewn perthynas i barhad y tafodau, profir gan Paul nad ydynt i beidio, hyd nes y "delo yr hyn sydd berffaith" (1 Cor. xiii, 8-10); ac yn ol hyny, y maent heb ddarfod etto. Gan fod cymmaint o dystiolaethau wedi eu rhoddi yn barod ynghylch y ddawn hon, yr ydym yn ei gadael i basio yn rhydd.

"CYFIEITHIAD TAFODAU."

Dyma y ddawn olaf a enwir; a chan eu bod yn dal cymmaint o gyssylltiad â'r un flaenorol, nid oes achos treulio amser na phapyr yn ei chylch. Lle bynag y byddo y ddawn o lefaru â thafodau, y mae yn ddiau fod eisieu y ddawn o gyfieithu i fod yn bresennol bob amser; ac nid yw y llall, yn ol tystiolaeth Paul (1 Cor. xiv, 6, 11, 14, 15, 28), ddim o un gwerth, os na fydd "cyfieithad tafodau" yn ei chanlyn, yr hyn a'i gwna yn gystal â phrophwydoliaeth. Gan hyny, gwelwn yn ddoethineb i ryddhau y ddawn hon, ar yr un tir â'r llall, fel y gallom gau y frawdlys, a gadael i bawb ddeisyf y "doniau goreu."

Wrth gwpla ein sylwadau ar y Doniau Ysbrydol, hysbyswn na allwn ni fod yn gyfrifol am ddim ond yr hyn ag ydym yn ddeall ac yn ysgrifenu. Geill llawer peth fod yn wir y mae ereill yn ysgrifenu, ag nad ydym ni yn eu hamgyffred; ac o ganlyniad, yr hyn a ysgrifeno ereill fo yn gwybod mwy nâ ni, y rhai hyny sydd i fod yn gyfrifol am eu dywediadau, ac i'n dysgu ninnau hefyd pan yn cyfeiliorni.

JOHN DAVIS, ARGRAFFYDD, MERTHYR-TYDFIL.